Volunteer Information

motor neurone disease association
cymdeithas clefyd motor niwron

# Hwylusydd Cyfarfod Grŵp Cymorth

"Mae'n fraint bod yn wirfoddolwr i Gymdeithas MND. Y peth sydd yn rhoi'r boddhad mwyaf yw gwybod fy mod wedi helpu pobl i gael mynediad at y gwasanaeth, y cyfarpar a'r cymorth sydd ei angen arnynt." Jo-Ann, Gwirfoddolwr

## Beth mae'n ei olygu?

Rydym yn chwilio am rywun i helpu gyda'r gwaith o gefnogi pobl ag MND, gofalwyr a theuluoedd yn ein cyfarfodydd grŵp cymorth lleol. Fel Hwylusydd Cyfarfod Grŵp Cymorth, byddwch yn:

- croesawu pobl i gyfarfodydd, gan roi cyfarwyddiadau
- hwyluso trafodaethau ac yn creu awyrgylch cefnogol
- helpu pobl i gael mynediad at wasanaethau, cymorth a/neu wybodaeth briodol
- cefnogi cynorthwywyr a nodi gwirfoddolwyr newydd posibl.

## Bydd y rôl yma yn addas i mi:



Byddai'r rôl hon yn addas ar gyfer rhywun â sgiliau gweinyddol a threfnu. Byddai sgiliau TG o fantais, ynghyd â'r gallu i annog a chefnogi pobl i gymryd rhan.

## Pa mor hyblyg yw y rôl?

Rydym yn chwilio am rywun fydd yn gallu rhoi tua 4 awr y mis i fynychu cyfarfodydd ynghyd â 2-3 awr ychwanegol y mis o amser cynllunio.

## Pa fath o hyfforddiant/sefydlu fyddaf yn ei gael cyn dechrau?

Byddwch yn cael eich sefydlu i'r rôl ac yn cael gwybodaeth am y Gymdeithas. Fel rhan o hyn, byddwch yn cael hyfforddiant e-ddysgu a/neu wyneb yn wyneb.

## Beth yw'r cam nesaf?

Mynegwch eich diddordeb neu gallwch gael mwy o wybodaeth trwy ebostio volunteering@mndassociation.org neu ffoniwch ni ar 01604 611681. Rydym yn annog ac yn croesawu ceisiadau o bob cefndir a phob cymuned.